| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 5. Y Kardomah Gang: Adolygiad bwyd |
| Disgrifiad: | Ysgrifennu adolygiad ffuglennol am fwyd maent wedi ei gael mewn tŷ bwyta. |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>***Ystyr, dibenion, darllenwyr:**<br>Bl3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb<br>Bl4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau'n addas<br>Bl5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd<br>Bl6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben<br><br>***Strwythur a threfn:**<br>Bl3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu<br>Bl4:<br>• defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu<br>Bl5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu<br>Bl6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol<br><br>**Ysgrifennu'n gywir**:<br>***Iaith:**<br>• Bl3/4/5/6: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol |
| Offer angenrheidiol: | • Ystod o adolygiadau bwyd (o'r papur newydd neu ar-lein) |
| Dull: | • Trafodwch gyda'r dysgwyr a ydynt wedi bod i dŷ bwyta, pa fath o dŷ bwyta a pha fath o fwyd a gawsant.<br>• Trafodwch gyda'r dysgwyr beth yw pwrpas adolygiad a lle gallwn ddod o hyd iddyn nhw, e.e. yn y papur, ar-lein.<br>• Edrychwch ar adolygiadau bwyd.<br>• Trafodwch pa fathau o nodweddion y byddai'r dosbarth yn hoffi eu hystyried yn yr adolygiad, e.e. safon y bwyd, gwasanaeth, lleoliad. |

| | |
|---|---|
| | • Fel dosbarth, ewch ati i greu rhestr o eiriau a allai fod yn ddefnyddiol yn yr adolygiad. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gallai'r dysgwyr greu ail ddrafft o'u hadolygiadau gan ddefnyddio pecynnau TGCh, e.e. WordArt neu Moxier Collage.<br>Gallai'r dysgwyr gyfnewid eu hadolygiadau â ffrind ac ysgrifennu dau beth a wnaethant yn dda ac un peth y gellid ei wella. |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gellid creu brawddegau gyda geiriau coll i ddysgwyr llai abl lle maent yn llenwi'r geiriau coll eu hunain. e.e. Roedd y pwdin yn ........ (flasus, fendigedig, eitha blasus) |